**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Andrew RT Davies AS
Aelod o Senedd Cymru dros Ganol De Cymru

11 Mawrth 2024

**Ynghylch: CAFCASS**

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Chwefror am CAFCASS Cymru, a drafodwyd gennym yn ystod ein cyfarfod ar 28 Chwefror.

Nid ydym wedi cynnal adolygiad o waith CAFCASS Cymru yn ystod y Senedd hon. Er ein bod yn cydnabod ei rôl bwysig o ran hyrwyddo lleisiau plant a phobl ifanc yn y llys teulu, nid oes gennym unrhyw gynlluniau i gynnal adolygiad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol ein bod ni wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar ar wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r adroddiad yn ystyried y llys teulu, ac yn nodi pryderon ynghylch prinder staff mewn awdurdodau lleol ac o fewn CAFCASS Cymru, yn unol â'r hyn a adroddwyd wrthym gan Syr Andrew McFarlane, Llywydd yr Is-adran Deuluoedd. Efallai y bydd yr adran sy'n dechrau ym mharagraff 123 o'r adroddiad, o dan y pennawd 'Y Llys Teulu', yn arbennig o berthnasol i'ch pryderon chi a phryderon eich etholwr. Roedd CAFCASS Cymru hefyd wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig gynhwysfawr i gefnogi ein hymchwiliad. Unwaith eto, efallai y bydd y dystiolaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn 2012, cynhaliodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad byr i weithgarwch CAFCASS Cymru, gan drafod rhai o'r pryderon a godwyd gennych yn eich llythyr (er fy mod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y sefyllfa, yn ôl pob tebyg, wedi newid yn sylweddol ers hynny).

Wrth gwrs, byddaf yn rhoi gwybod i chi am unrhyw waith perthnasol yr ydym yn ei wneud yn y dyfodol.

Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, er gwybodaeth iddo.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Cc: Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English